# Newyddion Datgeliad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd Mis Mai

**Rhestr erthyglau:**

- Erthygl olygyddol Sue
- Ein Cyfarwyddwr newydd
- Newidiadau i ganllawiau gwirio hunaniaeth
- Diffiniad cyfreithiol o 'weithio gyda'r plant'
- Mae’r Gwasanaeth Diweddaru’n taro marc 150,000
- Helpwch ni i’ch helpu
- Mae mynd ar-lein yn arbed amser i chi
- Diweddariad cyllid
- Cael y newyddion dieddaraf

## Erthygl olygyddol Sue

Helo, a chroeso i Newyddion Datgeliad mis Mai y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

Y mis diwethaf, gwnaethom sôn wrthych am rywfaint o oedi wrth brosesu ffurflenni cais ar bapur yn dilyn trosglwyddo i’n partner cyflenwi gwasanaeth newydd Tata Consultancy Services (TCS).

Ein prif flaenoriaeth oedd datrys hyn, ac mae'n bleser gennyf ddweud bod ein gwaith caled wedi llwyddo - mae lefelau gwasanaeth ar gyfer prosesu ceisiadau newydd ar bapur yn ôl i safonau arferol.

Nawr ein bod yn ôl i ble dylem fod, ein bwriad yw parhau fel hyn. Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda chi, ac i fonitro ein prosesau newydd er mwyn cynnal ein safonau a darparu'r gwasanaeth o ansawdd uchel rydych yn eu disgwyl.

Rydym wir wedi gwerthfawrogi eich amynedd a dealltwriaeth yn ystod y cyfnod hwn.

Rhifyn mis nesaf fydd fy un olaf fel Cyfarwyddwr Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd dros Weithrediadau (Datgelu). Byddaf yn ymddeol yn yr haf a byddaf yn trosglwyddo cyfrifoldeb i Ian Johnston, a fydd yn cychwyn yn ei swydd yn hwyr ym mis Mai.

Mae Ian yn ymuno â’r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn dilyn rôl pedair blynedd lwyddiannus fel cyfarwyddwr gweithrediadau yng ngrŵp cartref gofal MHS – grŵp sy'n rhedeg cartrefi gofal a llety ymddeol mewn dros 200 o safleoedd ar draws y wlad.

Rwy’n siwr y bydd Ian am ddweud rhagor wrthoch chi amdano ei hun a’i syniadau yn y rhifyn nesaf.

**Sue Quigley**
**Cyfarwyddwr Gweithrediadau (Datgelu)**

## Ein Cyfarwyddwr newydd

Yn dilyn proses recriwtio drwyadl, mae Ian Johnston wedi derbyn swydd Cyfarwyddwr Gweithrediadau (Datgelu) a bydd yn dechrau yn ei swydd, sydd wedi'i leoli yn Lerpwl, yn hwyr ym mis Mai.

Byddwn yn bendant yn gweld eisiau Sue Quigley ond bydd yn helpu Ian i bontio i'w swydd cyn iddi ymddeol yn yr haf.

Mae Ian yn ymuno â'r DBS ar adeg gyffrous, wrth inni gychwyn ar gyfnod newydd o newid sylweddol. Bydd yn gyfrifol am dîm sy'n cyflawni tua phedwar miliwn o wiriadau o gofnodion troseddol bob blwyddyn yn ogystal â helpu i gyflawni prosiectau mawr er mwyn helpu i roi'r cwsmer yn gyntaf.

Ian fydd y swyddog arweiniol ar bob mater yn ymwneud â pherfformiad gweithredol, gan ein galluogi i ddarparu ein cynllun strategol yn effeithiol ac i ddatblygu'n ymhellach fel Canolfan Rhagoriaeth. Byddwn yn rhoi rhagor o wybodaeth amdano yn y rhifyn nesaf o Newyddion Datgelu'r DBS.

## Newidiadau i'r canllawiau gwirio hunaniaeth

Rydym wedi bod yn gweithio gyda'r Swyddfa Gartref i nodi'r newidiadau y gellid eu gwneud i'n canllawiau gwirio hunaniaeth. Rydym am fynd i'r afael â rhai o'r materion rydych wedi bod yn eu codi ers i'r newidiadau diweddaraf gael eu cyflwyno ym mis Mai 2012.

Yn benodol, rydym wedi bod yn edrych ar y defnydd o dystysgrifau mabwysiadu a thrwyddedau gyrru EU. Bydd y canllawiau'n cael eu diwygio er mwyn golygu y bydd tystysgrifau mabwysiadu, o **1 Gorffennaf 2014**, yn cael eu trin yn yr un ffordd â thystysgrifau mabwysiadu gwreiddiol, a bod trwyddedau gyrru'r Undeb Ewropeaidd yn cael eu trin yr un ffordd â thrwyddedau gyrru'r DU.

Os cyflwynir unrhyw newidiadau pellach i'r canllawiau, byddwn yn rhoi llawer o amser i chi fel y gallwch wneud unrhyw newidiadau angenrheidiol i'ch dogfennau a systemau.

## Diffiniad cyfreithiol o 'weithio gyda'r plant'

Yn ddiweddar gwnaeth y Swyddfa Gartref newidiadau i ddeddfwriaeth bresennol er mwyn darparu diffiniad cyfreithiol o 'weithio gyda'r plant.'

Mae'r newidiadau hyn yn cryfhau'r pwrpasau presennol a ragnodir (rôl neu weithgaredd a bennir yn rheoliadau Deddf Heddlu sy'n darparu cymhwysedd ar gyfer cyflwyno gwiriadau o gofnodion troseddol) yn ymwneud â gweithio gyda phlant, a dod â nhw ynghyd i un pwrpas a ragnodir a elwir yn 'waith gyda phlant.' Mae hyn yn caniatáu ar gyfer gwneud gwiriadau cofnodion troseddol manwl.

Gellir gweld y ddeddfwriaeth newydd ar wefan legislation.gov.uk:

SI 2013/2669

SI 2014/955

Mae'n rhoi mwy o eglurder – er enghraifft, mae'n cynnwys cyfeiriad at warcheidwaid arbennig, er eu bod gynt yn gymwys ar gyfer gwiriadau cofnodion troseddol oherwydd eu rôl, nid oeddent wedi'u henwi o'r blaen. Fel yn achos darpar fabwysiadwr, byddai hyn hefyd yn cynnwys unrhyw bersonau sy'n 18 oed neu hŷn sy'n byw ar yr un aelwyd â'r gwarcheidwad arbennig.

Dyma grynodeb o'r diben rhagnodedig newydd:

- Gweithgareddau a fyddai wedi bodloni'r diffiniad o weithgaredd gyda'r plant a reoleiddiwyd cyn cyflwyno'r Ddeddf Diogelu Rhyddidau (PoFA) ym mis Medi 2012
- Gweithgareddau sy'n bodloni'r diffiniad o weithgaredd gyda phlant a reoleiddir
- Rhieni mabwysiadol, gwarcheidwaid arbennig ac unrhyw un o aelodau eu cartref sy'n 18 oed a throsodd
- Cofrestru ar gyfer gwarchod plant/gofal dydd ac unrhyw aelodau o'r aelwyd yn 16 oed ac yn hŷn
- Cofrestru o dan Ran 3 o Ddeddf Gofal Plant 2006 ac unrhyw aelodau o'r aelwyd yn 16 oed ac yn hŷn
- Gofalwyr maeth ac unrhyw aelodau o'r aelwyd yn 18 oed ac yn hŷn*
- Gofalwyr maeth preifat ac unrhyw aelodau o'r aelwyd yn oed 16 oed ac yn hŷn
- Aelodau o'r aelwyd sy'n 16 oed ac unigolion sydd mewn gweithgaredd gyda phlant a reoleiddir, neu byddai wedi bod mewn gweithgaredd gyda'r plant a reolir cyn cyflwyno'r PoFA ym mis Medi 2012 ac yn byw ar safle ysgol; neu sy'n gweithio ac yn byw mewn Sefydliad Addysg Bellach (AB) neu Academi 16-19 oed
- Gweithio mewn Sefydliad Addysg Bellach neu Academi 16-19 neu lle mae'r dyletswyddau arferol yn cynnwys cyswllt rheolaidd gyda phlant
- Gweithgareddau a fyddai wedi bod yn weithgaredd gyda phlant a reoleiddir cyn cyflwyno'r PoFA ym mis Medi 2012 os oeddent yn bodloni'r amod cyfnod ond dim ond yn cael eu cyflawni'n anfynych
- Gweithgareddau a fyddai yn weithgaredd gyda phlant a reoleiddir cyn cyflwyno'r PoFA ym mis Medi 2012 os oeddent yn bodloni'r amod cyfnod ond dim ond yn cael eu cyflawni'n anfynych
- Cofrestru o dan Ran 2 (Sefydliadau) a Rhan 4 (Gweithwyr Gofal Cymdeithasol) o Ddeddf Safonau Gofal 2000

Nid yw'r newidiadau hyn wedi effeithio ar gymhwyster ar gyfer cael mynediad at wiriadau o restrau gwaharddedig plant.

Mae dogfen cymhwyster a gweithlu plant y DBS wedi cael ei diweddaru i adlewyrchu'r newid hwn.

*Yn unol â rheoliadau maethu'r Adran Addysg.*

## Mae'r Gwasanaeth Diweddaru'n taro marc 150,000

Mae bron i flwyddyn ers i'r Gwasanaeth Diweddaru gael ei lansio ac mae mwy na 150,000 o danysgrifwyr eisoes wedi manteisio ar fod yn gallu trosglwyddo a diweddaru eu tystysgrifau ar-lein. Mae'r gwasanaeth tanysgrifio cost-isel hefyd yn rhoi'r hyblygrwydd i allu mynd â'ch tystysgrif o rôl i rôl – hyn i gyd am ychydig dros £1 y mis.

O'r mis hwn ymlaen, bydd y tanysgrifwyr hynny nad ydynt yn dewis adnewyddu eu tanysgrifiad yn awtomatig yn gallu adnewyddu eu hunain am flwyddyn arall am ddim ond £13 .

Mae llawer ohonoch chi eisoes wedi manteisio ar y Gwasanaeth Diweddaru, gan wneud gwiriadau ar-lein o dystysgrifau DBS pobl a hynny am ddim ac ar unwaith. Mae hyn yn helpu i gyflymu eich prosesau recriwtio ac yn cynyddu eich hyder yn yr wybodaeth a gyflwynir i chi.

Rydych hefyd wedi cydnabod manteision hyrwyddo'r gwasanaeth i'ch cleientiaid ac ymgeiswyr – ac wedi chwarae rhan bwysig yn eu helpu i gael gafael ar y pecyn.

Mewn arolwg diweddar gan Ipsos MORI, roedd 87% o danysgrifwyr yn fodlon â'r gwasanaeth. Roedd ei effeithlonrwydd a rhwyddineb ei ddefnyddio'n cael croeso cadarnhaol. Mae'n wych clywed bod y gwasanaeth diweddaru yn rhoi cyfradd bodlonrwydd mor uchel i danysgrifwyr yn ei flwyddyn gyntaf. Mae wastad lle i wella a'n bwriad yw cyflawni hyn drwy foderneiddio ein gwasanaethau yn barhaus.

Mae'r hyn rydym wedi'i glywed gan ein cwsmeriaid dros y flwyddyn ddiwethaf wedi codi ein calonnau ac rydym yn falch o'r hyn y mae'r Gwasanaeth Diweddaru'n ei gynnig a'r hyn a gyflawnwyd. Mae'n cefnogi ein pwrpas a rennir - diogelu'r cyhoedd a sicrhau y gwneir penderfyniadau addasrwydd cytbwys - yn ogystal â'n penderfyniad i ddarparu gwasanaeth ardderchog.

Cadwch lygad ar agor am fwy o wybodaeth yn yr wythnosau nesaf.

Meddyliwch am...

⇨ Sut y gall eich sefydliad, eich cleientiaid a'ch ymgeiswyr barhau i elwa ar ddefnyddio'r Gwasanaeth Diweddaru.

⇨ annog unigolion i adnewyddu eu tanysgrifiad fel y gallwch barhau i elwa ar wiriadau ar-lein rhad ac am ddim ar unwaith o dystysgrifau'r DBS.

⇨ defnyddio eich sianeli cyfathrebu i gleientiaid i ddweud wrth gleientiaid am y Gwasanaeth Diweddaru a'u hatgoffa i adnewyddu eu tanysgrifiad.

## Helpwch ni i'ch helpu

Eleni, rydym wedi cynnal mwy o ymchwil fwy nag erioed o'r blaen, gyda'r nod o'n helpu i ddeall yr hyn rydych ei eisiau o'n gwasanaethau. Mae eich adborth wir yn bwysig a byddwn yn parhau i'ch cynnwys, a defnyddio'r hyn y dywedwch wrthym i ddatblygu a gwella ein gwasanaethau wrth i'ch anghenion newid.

Yn ddiweddar, gwnaethom wahodd rhai ohonoch chi i gymryd rhan mewn arolwg Newyddion Datgeliad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd – roedd y canlyniadau yn ddefnyddiol iawn a byddwn yn eu defnyddio i wella sut rydym yn cyfathrebu â chi, pryd y gwnawn hynny a pha wybodaeth rydym yn ei darparu. Byddwn yn dweud mwy am hyn, a phrosiectau ymchwil cwsmeriaid eraill rydych wedi cymryd rhan ynddynt, y mis nesaf.

## Mae mynd ar-lein yn arbed amser i chi

Mae eich amser yn brin, felly defnyddio ein gwasanaethau ar-lein yw'r ffordd gyflymaf i olrhain eich cais a chael y newyddion diweddaraf.

Yn ystod cyfnodau o alw uchel, bydd mynd ar-lein yn sicrhau yn eich bod yn parhau i gael y lefel ragorol o wasanaeth rydych wedi dod i'w disgwyl.

### Olrhain ar-lein

I olrhain ceisiadau ar-lein yr unig beth sydd ei angen yw cyfeirnod y cais - y rhif 'F' ar gyfer ceisiadau ar bapur neu rif 'E' ar gyfer ceisiadau ar-lein - a dyddiad geni'r ymgeiswyr.

Dim ond un clic sydd ei angen i gyrraedd ein gwasanaeth olrhain ar-lein; mae'r gwasanaeth ar gael ddydd a nos ac yn rhoi canlyniadau ar unwaith, felly does dim rhaid i chi aros.


Gallwch hefyd ei ddefnyddio i olrhain sawl cais ac i archebu ffurflenni cais gwag.

### Y newyddion diweddaraf a diweddariadau

Mae ein newyddion diweddaraf a diweddariadau ar dudalennau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd o wefan GOV.UK. Caiff ein tudalen hafan ei diweddaru'n rheolaidd ac mae ein canllawiau i gyd ar gael ar-lein.

Pan ychwanegir stori newyddion neu pan gaiff canllawiau eu diweddaru, gallwch benderfynu derbyn rhybudd e-bost a anfonir gan GOV.UK:

- Ewch i'n tudalen hafan a sgroliwch i lawr nes y gwelwch y blwch 'Latest'.




- Cliciwch ar y ddolen 'e-bost' a dilynwch y cyfarwyddiadau i greu tanysgrifiad e-bost, y gallwch ei reoli fel bo angen.

## Diweddariad cyllid

**Cwsmeriaid sy'n talu drwy ddebyd uniongyrchol**

Y mis diwethaf, yr oeddem wedi cael rhai problemau technegol gyda chasglu debydau uniongyrchol.  Mae hyn wedi cael sylw erbyn hyn a bydd casglu debydau uniongyrchol yn digwydd fel arfer y mis hwn.

Mae'n ddrwg gennym am unrhyw anghyfleustra y mae hyn wedi achosi, ond gallwn sicrhau i chi fod y broses bellach yn gweithio fel arfer.

Diolch i'r rhai a wnaeth daliadau drwy ddull amgen yn ystod mis Ebrill 2014.

**Cwsmeriaid sy'n talu trwy BACS**

Sylwch i'n manylion cyfrif banc newid ar 7 Mawrth 2014 – gweler ein llythyr dyddiedig Chwefror 2014.

Cofiwch ddyfynnu rhif eich anfoneb neu rif cyfrif y Corff Cofrestredig  ar eich cyfarwyddyd BACS, ac anfon hysbysiad talu i un o'r canlynol:

- invoice@dbs.gsi.gov.uk
- PO Box 142, Lerpwl, L69 3JA
- Ffacs i 0151 676 1702

## Cadw yn y ddolen

Mae cadw eich manylion cofrestru yn gyfredol yn hanfodol – rydych yn darllen y rhifyn hwn o Newyddion Datgeliad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd oherwydd ein bod yn gallu ei anfon ar yr ebost i chi gan ddefnyddio'r manylion ar roddoch chi inni.

Os ydych yn gwybod bod angen diweddaru a/neu ddileu manylion o'n system, cysylltwch â ni mewn ysgrifen ar bapur pennawd eich cwmni, gan ddarparu'r wybodaeth ganlynol:

- Rhif y Corff Cofrestredig
- Enw, rhif a llofnod eich Cydlofnodydd (Arweiniol),
- Manylion y newidid(au) – fel yr enw blaenorol ac enw/cyfeiriad newydd y Corff Cofrestredig, y dyddiad y mae'r newid yn dod i rym, ac enw a rhif(au) cofrestru'r Cydlofnodwyr y mae'n effeithio arnynt

Os nad yw'r Cydlofnodydd Arweiniol neu Gydlofnodydd ar gael i gyflwyno'r manylion hyn, gallwn dderbyn llythyr oddi wrth gyfarwyddwr neu rywun tebyg.

Anfonwch hwn at:
**Disclosure & Barring Service**
**PO Box 110**
**Lerpwl**
**L69 3EF**

I gael mwy o wybodaeth darllenwch yr adran 'newid eich manylion cofrestru' ar y dudalen canllawiau ar gyfer cyflogwyr ar y wefan.